POLISI MYNEDIAD

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Dan Gymorth Yr Eglwys yng Nghymru y Mwynglawdd yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Fel Ysgol Gymorthedig yr Eglwys yng Nghymru, Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion.

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn gofyn bod AALl a Chyrff Llywodraethol yn derbyn disgyblion hyd at nifer y derbyniadau oni bai y byddai gwneud hynny'n groes i gadw natur neilltuol yr Ysgol. Ar hyn o bryd derbynnir 17 disgybl.

Bydd plant o gymuned Sipsiwn crwydrol neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg Sipsiwn-Teithwyr'.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched, nac yn erbyn ceiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Mae'r Llywodraethwyr yn defnyddio rhai, neu bob un, o'r meini prawf canlynol i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn; nodwch nad ydynt mewn unrhyw drefn o ran blaenoriaeth:

1. Plant dan ofal a fedyddiwyd yn aelodau'r Eglwys yng Nghymru
2. Plant dan ofal o Ffyddau eraill
3. Byw ym mhlwyf y Mwynglawdd.
4. Disgyblion y mae eu rhieni yn wir aelodau cymundeb Eglwys y Santes Fair.
5. Disgyblion y mae eu rhieni yn wir aelodau cymundeb eglwys arall o fewn Yr Eglwys yng Nghymru
6. Disgyblion y mae eu rhieni'n aelodau o eglwys Gristnogol arall
7. Disgyblion y mae eu rhieni'n aelodau gweithredol o ffydd arall ac sydd hefyd yn mynegi dymuniad am addysg Ysgol Eglwysig.
8. Mae gan y plentyn frawd, chwarae, llysfrawd neu lyschwaer fydd yn mynychu'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf
9. Mae yna resymau meddygol, cymdeithasol neu addysgiadol penodol dros fynychu'r ysgol hon yn hytrach nag ysgol arall.

[O fewn pob categori, mae'r flaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosach at yr ysgol, ar wahân i blant dan ofal, sy'n derbyn y flaenoriaeth uchaf. Mae Awdurdod Addysg Lleol Wrecsam yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i fesur y pellter llinell syth rhwng cartref ac ysgol yn gywir. Os yw'r pellter yn union gyfartal – er enghraifft, mewn bloc o fflatiau gydag un drws blaen – mi fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng llawr a llawr.]

Gall rhieni sy'n anfodlon ar benderfyniad y Corff Llywodraethol i beidio â derbyn plentyn apelio. Dylid gwneud hynny o fewn 14 diwrnod at dderbyn y penderfyniad. Dylid anfon apeliadau'n ysgrifenedig at:

Cyfarwyddwr addysg gydol oes yr esgobaeth
Swyddfa'r esgobaeth
Y stryd fawr
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0RD.

DARPARIAETH CYFNOD SYLFAEN / MEITHRINFA

1. Mae plant yn mynychu rhan-amser ar ddechrau'r flwyddyn ysgol maen nhw'n troi'n bedair oed
2. Nid yw ennill lle yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen / Meithrinfa yn sicrhau lle amser-llawn
3. Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol, er nad yw mynychu addysg feithrin yn orfodol. O dan Ddeddf Addysg 1980, nid oes gan rieni hawl i apelio yn erbyn methu â chael lle.

DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU

"Gwir aelodau cymundeb yr Eglwys yng Nghymru"

Rhywun sydd:

- wedi ei fedyddio
- wedi datgan ei fod yn aelod o'r Eglwys yng Nghymru neu eglwys gysylltiedig
- wedi derbyn cymun Yr Eglwys yng Nghymru o leiaf dair gwaith yn deuddeg mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

"Rhieni"

Un rhiant, dau riant, unig riant neu warcheidwad cyfreithiol. Os mai un yn unig sy'n bodloni'r anghenion, mi fydd hynny'n cael ei ystyried yn gyfwerth â chais ble mae'r ddau riant yn bodloni'r anghenion.

Lle bo cyfrifoldeb dros blentyn 'ar y cyd', pwy bynnag sy'n derbyn y Budd-dal Plant yw'r un sy'n cael ei farnu'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais a dyma'r cyfeiriad fydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion derbyn. Mae gan y Corff Llywodraethol yr hawl i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig o'r cyfeiriad cartref sydd ar y ffurflen gais.

TYSTIOLAETH

Mae'n bosib y bydd angen i geisiadau sy'n cael eu hystyried o dan feini prawf 2(a), 2(b), 2(c) a/neu 2(d) gynnwys llythyr oddi wrth fugail y teulu.

Rydym yn atgoffa rhieni fod hon yn Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Gymorth yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r llywodraethwyr a'r staff yn ceisio annog ethos o ofal Cristnogol. Mae gwerthoedd ffydd yn rhan annatod o wead bywyd yr

ysgol. Mae addoli ar y cyd, ac addysg grefyddol, yn rhan bwysig o fywyd pob dydd yr ysgol.

Ysgrifennwyd y polisi hwn i gydymffurfio â'r dogfennau canlynol:

- Cod Statudol Derbyniadau Ysgol Dogfen Rhif: 002/2009, Gorffennaf 2009
- Deddfau Anffafrio'r Anabl 1995 a 2005
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Deddf Diwygio Addysg 1988
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 – hawl dewis y rhieni (adran 86(1)) a'r hawl i apelio
- Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.
- Deddf Addysg 2005 – blaenoriaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 44) - gwaharddiad ar gyfweld rhieni a phlant.
- Deddf Addysg 2002 – diddymu'r hawl i gyfyngu ar dderbyniadau ar sail cyfran y plant o'r tu allan i'r grŵp ffydd
- Canllawiau anstatudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Esgobaeth Llanelwy.